Gweithgaredd 2

Addas i unigolion neu grwpiau. Oed 8+

PA MOR LÂN YDI'R DŴR?

TASG

Gwneud teclyn hidlo dŵr a'i brofi ar afon, yn y môr, neu ar lyn

OFFER

Ar gyfer pob grŵp: tyweli papur, carton wedi ei gwyro gyda thyllau yn ei waelod, 2 botel blastig a chaeadau, 2 hambwrdd plastig, twmffat, gro, tywod, dŵr, pridd a phaent (paent sylfaen ddŵr).

GWEITHGAREDD

Dilyn ac addasu'r cyfarwyddiadau i greu a phrofi hidlydd dŵr effeithiol. Pa ddŵr oedd y glanaf?

1. Rhowch dywel papur yng ngwaelod y carton.
2. Ychwanegwch haen 5cm o'r gro ar ben y papur.
3. Ychwanegwch haen 10cm o dywod ar ben y gro.
4. Llenwch y ddwy botel blastig efo'r dŵr sydd i'w brofi.
5. Tywalltwch ddŵr un o'r poteli drwy'r hidlydd. Gallwch ail-wneud hyn. Daliwch y dŵr a thywalltwch o'n ôl i'r botel drwy'r twmffat.
6. Cymharwch y ddwy botel – dŵr pa un ydi'r glanaf?

Ychwanegwch bridd neu baent i'r dŵr. Ydi'r dŵr sydd wedi ei hidlo'n lân rŵan? Arbrofwch gyda hylifau llygru eraill i weld eu heffaith